Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 7 Hydref 2014, rydw i bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth a nodir yn eich llythyr dyddiedig 3 Hydref 2014 .

Dylwn esbonio mai ar gyfer gwybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus y mae hawl mynediad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac nad oes rhaid i ni greu gwybodaeth er mwyn ymateb i geisiadau a wneir dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae fy ymateb i bob un o'ch cwestiynau wedi'i nodi isod:

1. *Dywedir ei bod yn hanfodol bwysig ein bod yn rhoi sgiliau i'n pobl ifanc sy'n trosglwyddo i'r gweithle:pa dystiolaeth sydd gennych fod "cyflogwyr yn gwerthfawrogi ac eisiau" gweithwyr sy'n siarad Saesneg a Chymraeg?*

Mae gennym beth gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais. Fel rhan o'n Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn cynnal arolwg dewis iaith gyda'n cyrff archwiliedig bob tair blynedd. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf yn 2012, a nododd rhai o'r cyrff archwiliedig hynny mai prif iaith eu busnes yw Saesneg a Chymraeg. Roedd y cyrff hyn yn cynnwys:

Cyngor Celfyddydau Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyngor Gofal Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Dinas a Chyngor Sir Abertawe

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych

Estyn

Cyngor Sir Fflint

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Grŵp Llandrillo Menai (Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Menai, Coleg Llandrillo)

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Cyngor Sir Ynys Môn

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Amgueddfa Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru

Chwaraeon Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ymddiriedolaeth Prawf Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Nododd tri chorff archwiliedig mai prif iaith eu busnes yw Cymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys:

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Gwynedd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Er mwyn cwblhau, dylwn nodi nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn yr arolwg dewis iaith oherwydd maint y sefydliad ac roedd yr ystod o weithgareddau roedd Llywodraeth Cymru'n ei gynnal yn golygu nad yr arolwg oedd y dull mwyaf priodol ar gyfer deall eu dewis iaith. Yn hytrach, cynhaliwyd cyfarfod â Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y mater hwn.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan ac mae'n nodi y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn trin Saesneg a Chymraeg yn gyfartal, ac mae'n ymroddedig i gynnal tasgau penodol yn ddwyieithog. Felly, ac oherwydd bod llawer o'n cyrff archwiliedig yn cynnal eu busnesau'n ddwyieithog hefyd, rydym angen i rai o'n staff fod yn ddwyieithog. Mewn gwirionedd, weithiau mae'n hanfodol recriwtio aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg. Er enghraifft, mae'r canlynol yn ddyfyniad o'r pecyn recriwtio ar gyfer yr ymarfer recriwtio a gynhaliwyd yn ddiweddar i Archwilwyr Perfformiad:

Tra bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn ddymunol ar gyfer y swyddi, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried sgiliau Cymraeg yn hanfodol i un o'r swyddi. Ar gyfer y swydd hon, er na fydd angen i ddeiliad y swydd ysgrifennu adroddiadau cymhleth yn Gymraeg, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â deall a dehongli dogfennau Cymraeg.

2. *I bob dawn a gallu, mae 50% o'r boblogaeth - trwy ddiffiniad - yn is na'r cyfartaledd: pa dystiolaeth sydd gennych fod gan unigolyn sydd â sgiliau iaith is na'r cyfartaledd y gallu i fod yn ddwyieithog?*

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n bodloni disgrifiad y cais hwn.

3. *Mae Addysg Cyfrwng Gymraeg yn nodwedd unigryw ar Addysg yng Nghymru: pa dystiolaeth sydd gennych NAD pwysau ychwanegol y rhaglen ddwyieithog hon sy'n andwyo ein pobl ifanc yn y profion PISA?*

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n bodloni disgrifiad y cais hwn.

4. *Mae'r Llywodraeth yn dweud ei bod wedi ymrwymo i gyflawni'r gwerth gorau am arian ym mhob gwasanaeth cyhoeddus:pa dystiolaeth sydd gennych, gan gyfeirio'n benodol at safleoedd PISA sy'n dirywio, nad rhethreg wag yn unig yw hyn?*

Mae gennym lawer iawn o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, y mae peth ohoni'n cyfeirio at safleoedd Pisa, ond nid ydym yn dosbarthu gwybodaeth a gawn wrth i ni arfer ein swyddogaethau yn ôl meini prawf "rhethreg wag", ac felly nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n bodloni disgrifiad eich cais.

5. *Mae gwariant cyhoeddus yn cael ei ariannu gan greu cyfoeth preifat:pa dystiolaeth sydd gennych, yng Nghymru, bod y busnes o greu cyfoeth yn cael ei wneud yn Gymraeg? (Ai Cymraeg yw iaith Allforio, Cyllid a Buddsoddiad?)*

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n bodloni disgrifiad y cais hwn. Rwy'n cymryd mai cwestiwn rhethregol yw eich cwestiwn mewn cromfachau, ond er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n bodloni'r disgrifiad hwn.

Nid wyf wedi cyflwyno unrhyw esemptiadau, fodd bynnag, os ydych yn dymuno gwneud cwyn ynglŷn â'r modd yr wyf wedi trafod eich cais, anfonwch e-bost neu lythyr ataf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Ian Phillips